12 Chwefror 2025

Annwyl Lindsay Harvey,

Ar 14-16 Ionawr, cynhaliodd Andrea Davies AEF a thîm o ddau AEF ymweliad estynedig arolygwyr cyswllt awdurdod lleol (ACALl) a ganolbwyntiodd ar bresenoldeb a'ch Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Gyfarfod â chi a'ch uwch dîm
- Cyfarfod â'r aelod cabinet dros addysg a'r cadeirydd craffu ar addysg
- Cyfarfod ag ystod o benaethiaid
- Cyfarfod â grwpiau o bobl ifanc
- Cyfarfod â swyddogion presenoldeb
- Ystyried dogfennau a ddarparwyd yn ddefnyddiol gan eich timau

Gobeithiwn y bu'r ymweliad hwn yn ddefnyddiol i chi a'r tîm gwasanaethau addysg. Dyma grynodeb o'n canfyddiadau.

**Maes ffocws 1: Beth yw'r prif heriau yn ymwneud â phresenoldeb a nodwyd gan yr awdurdod lleol a sut yr eir i'r afael â nhw a beth yw'r effaith?**

Mae cynllun corfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2028 yn nodi presenoldeb fel blaenoriaeth glir ar gyfer gwella. Mae Cynllun Strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc 2023-2026 yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r camau y mae'r awdurdod lleol yn eu cymryd i wella presenoldeb disgyblion, sy'n treiddio'n dda trwy gynlluniau gwasanaethau. Mae swyddogion wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella'n barhaus yn gywir gan ddefnyddio ystod o wybodaeth berthnasol.

Mae gan swyddogion awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion dargedau presenoldeb dyheadol ar waith, sy'n dangos disgwyliadau uchel i wella presenoldeb disgyblion. At ei gilydd, mae tuedd ganologol ar i fyny mewn presenoldeb disgyblion ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, fel ei gilydd.

Mae'r bwlch rhwng presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn dechrau gwella. Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad uchel i gefnogi ysgolion i barhau i wella yn y maes hwn.

Mae prosesau monitro a gwerthuso yn darparu diweddariadau rheolaidd gwerthfawr ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet, Trosolwg a Chraffu. Mae aelodau'r cyngor yn deall y materion yn ymwneud â phresenoldeb ar draws ysgolion ac effaith gwaith eu swyddogion yn dda.

Mae diwylliant cydweithredol 'Tîm Pen-y-bont ar Ogwr', sydd wedi'i hen sefydlu, yn hybu dull cyson trwy gyfathrebu effeithiol rhwng penaethiaid a swyddogion. Mae cyfleoedd defnyddiol i arweinwyr rannu arfer effeithiol yn rheolaidd, er enghraifft yng nghyfarfodydd Tîm Pen-y-bont ar Ogwr ac yn ystod cyfarfodydd penaethiaid cynradd ac uwchradd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi ysgolion i rannu eu dulliau trwy ddeialog broffesiynol. Mae'r ALl yn annog penaethiaid i deilwra strategaethau presenoldeb i gyd-destun eu hysgol. Mae gwaith partneriaeth cryf ar draws y gyfarwyddiaeth ac â gwasanaethau allanol i gefnogi gwelliannau mewn presenoldeb. Mae hyn wedi'i gydlynu'n dda gan y Tîm Ymgysylltu ag Addysg (EET), yn manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio adnoddau'r awdurdod lleol ac yn darparu dull cydlynol i ysgolion a'u clystyrau i fynd i'r afael â phryderon presenoldeb targedig.

Mae gan y gweithgor presenoldeb gynrychiolaeth eang o ysgolion a'r awdurdod lleol. Dros y 18 mis diwethaf, gwnaed newidiadau strategol a gweithredol allweddol drwy'r grŵp hwn i gryfhau cymorth i ysgolion i wella presenoldeb disgyblion. Mae hyn yn cynnwys datblygu Strategaeth Presenoldeb Ysgol newydd yr awdurdod lleol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i mabwysiadu gan ysgolion a'r UCD. Yn ogystal, mae'r gwaith i gydlynu templedi presenoldeb ysgol a datblygu pecyn cymorth presenoldeb ac archwiliad blynyddol yn eu lle. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnig dull cyson a chytûn o wella presenoldeb disgyblion ar draws pob ysgol yn effeithiol.

Mae swyddogion yn manteisio i'r eithaf ar adnoddau cyfyngedig i ysgogi gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion. Mae hyn yn cynnwys ad-drefnu'r Gwasanaeth Lles Addysg yn rhan o'r Tîm Ymgysylltu ag Addysg. Mae penaethiaid yn gwerthfawrogi'r datblygiadau hyn fel gwelliannau cadarnhaol yn yr awdurdod lleol. Mae'r dull cymorth targedig yn gweithio'n llwyddiannus ac yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Mae penaethiaid yn gwerthfawrogi'r Gwasanaeth Lles Addysg yn fawr iawn. Mae'r datblygiadau hyn yn cyfrannu'n dda at wella presenoldeb disgyblion.

Caiff arweinwyr ysgolion ddiweddariad tymhorol ysgol ar un dudalen (SOAP) ar bresenoldeb disgyblion gan swyddogion yr awdurdod lleol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i lywio eu strategaethau, manteisio ar gymorth ychwanegol a gweithio ar y cyd yn eu clystyrau i lywio gwaith y Gwasanaeth Lles Addysg i gefnogi'r disgyblion mwyaf bregus a'u teuluoedd yn dda.

Mae ffocws cryf ar lais y disgybl yn cyfrannu at welliannau ym mhresenoldeb disgyblion. Mae swyddogion o'r farn bod hyn yn arf pwerus o ran cryfhau negeseuon allweddol yn ymwneud â phresenoldeb.

**Meysydd i'w hystyried**

Mae swyddogion a phenaethiaid yn rhannu dealltwriaeth realistig bod gwelliannau ym mhresenoldeb disgyblion yn gymhleth ac yn hirdymor, yn enwedig o ran lleihau achosion o absenoldebau cyson. Gallai fod yn ddefnyddiol ystyried goblygiadau eich strategaethau o ran adnoddau ariannol hirdymor i gynnal gwelliant. Sut bydd y newidiadau diweddar i'r system rheoli gwybodaeth yn cryfhau dadansoddi data presenoldeb disgyblion ymhellach er mwyn targedu adnoddau a chymorth i ysgolion yn rhagweithiol?

**Maes ffocws 2: Beth yw'r cynnydd tuag at fodloni blaenoriaethau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a beth yw'r effaith?**

Mae arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cyfleu hyn yn rheolaidd ac yn effeithiol i ysgolion a rhanddeiliaid. Mae uwch swyddogion, aelodau etholedig a staff yn y Gyfarwyddiaeth Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn gweithio'n dda i ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar draws yr awdurdod. Mae ymrwymiad cryf gan yr awdurdod lleol drwy ei raglen buddsoddi cyfalaf i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Ers i gydlynydd y CSCA fod yn y swydd, mae blaenoriaethau'r CSCA wedi dod yn rhan amlycach o weledigaeth strategol yr awdurdod ar gyfer datblygu pob agwedd ar y Gymraeg. Caiff hyn ei gefnogi'n dda gan benaethiaid a staff ar draws ysgolion a lleoliadau a thrwy ddull 'Tîm Pen-y-bont ar Ogwr'.
Mae gan y Fforwm Addysg Gymraeg aelodaeth eang o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, swyddogion ac aelodau etholedig, yn ogystal ag ystod o randdeiliaid allanol. Mae is-grwpiau'r Fforwm Addysg Gymraeg yn cyfrannu'n bwrpasol at ddatblygu blaenoriaethau sydd wedi'u hamlinellu yn y CSCA.

Er bod nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o leoliadau nas cynhelir i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn her o hyd, mae swyddogion yn cydweithio â'r holl randdeiliaid i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r angen i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac wedi datblygu 2 hyb gofal plant newydd yn ddiweddar. Eir i'r afael â'r heriau o ran dod o hyd i staff sydd â'r medrau angenrheidiol i weithredu'r hybiau gofal plant mewn modd arloesol, er enghraifft trwy gynnig pecyn ariannol buddiol gan gynnwys adeilad llawn adnoddau, sy'n golygu bod un o'r hybiau wedi'i ddyrannu i ddarparwr â dyddiad dechrau cytûn.

Mae darpariaeth yr awdurdod ar gyfer addysg drochi Cymraeg yn y sector cynradd wedi esblygu o fodel peripatetig i ddarpariaeth yn yr ysgol ar ôl gwerthuso'r model blaenorol. Dim ond megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae'r Fforwm Addysg Gymraeg yn cydweithio â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol, fel cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel pwnc ar gyfer Safon Uwch. Mae wedi datblygu model hybrid sy'n annog mwy o ddisgyblion i astudio'r pwnc a sicrhau y caiff arbenigedd staff ei gynnal. Mae gan Ysgol Gyfun Llangynwyd bartneriaethau ag ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn awdurdodau cyfagos i ddarparu ystod o bynciau ôl-16.

Mae pob ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgarwch Siarter Iaith / Cymraeg Campus, sy'n hybu

ymwybyddiaeth disgyblion o'r iaith. Mae cydlynydd y CSCA yn cydweithio'n agos ag ysgolion a'r UCD i ymgysylltu ag asiantaethau i gynnig cyfleoedd sy'n cyfoethogi darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion. Mae cynnwys disgyblion yn y maes hwn yn flaenoriaeth uchel ac maent yn rhannu eu profiadau am sut maent yn hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn frwdfrydig yn eu hysgolion.

Yn ogystal â gweithio mewn clwstwr, mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn cyfarfod fel clwstwr ar wahân ac yn gweithio i hybu'r iaith a'r diwylliant yn eu cymunedau lleol yn effeithiol. Mae swyddogion yn cydweithio'n agos ag ysgolion i lunio deunydd sy'n hybu manteision dwyieithrwydd ymhlith rhieni a gofalwyr. Bu cynnydd yn y ddarpariaeth i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r awdurdod lleol yn rhagweithiol o ran ei ddull o fodloni anghenion y disgyblion hyn.

**Meysydd i'w hystyried:**

Pa mor dda y mae swyddogion yn cipio ac yn gwerthuso effaith eu gweithredoedd yn y CSCA? Er enghraifft, mae ychwanegu amserlenni wedi'u diffinio'n glir a meini prawf llwyddiant yn debygol o finiogi eich prosesau gwerthuso.

Sut byddwch yn sicrhau bod y niferoedd sy'n trosglwyddo o leoliadau nas cynhelir i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynyddu i fodloni eich targedau?

Sut byddwch yn parhau i hybu addysg Gymraeg fel dewis i rieni/gofalwyr ar hyd taith addysgol plentyn?

I ba raddau ydych chi'n rhannu ac yn dysgu o arfer mewn awdurdodau eraill, gan gynnwys awdurdodau sydd â demograffeg ieithyddol debyg? Er enghraifft, addysg drochi Cymraeg ac adnoddau ADY trwy gyfrwng y Gymraeg.

Diolch yn fawr i chi am hwyluso'r ymweliad ac edrychaf ymlaen at drafod y datblygiadau yn y ddau faes ffocws gyda chi a'ch cydweithwyr yn ystod fy ymweliadau cyswllt.

Yn gywir,

Andrea

**Andrea Davies AEF**

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW
Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW
Telephone: 02920 446446
enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.